

## LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

### Cofnodion Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

a gynhaliwyd yn Aberystwyth

ddydd Gwener, 4 Tachwedd, 2016

#### Presennol:

#### Ymddiriedolwyr:

Rhodri Glyn Thomas, Llywydd  
Hugh Thomas  
Roy Evans  
Richard Houdmont

Colin R. John, Trysorydd  
Roy Roberts  
Yr Arglwydd Aberdâr

Iwan Davies  
Susan Davies  
Huw Williams

#### Tîm Gweithredol:

Linda Tomos  
David Michael  
Pedr ap Llwyd

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd  
Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol  
Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus

#### Staff:

Mererid Jones  
Annwen Isaac  
Carol Edwards

Pennaeth Cyllid a Menter [ar gyfer Adran 4]  
Ymgynghorydd Adnoddau Dynol  
Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

#### Hefyd yn bresennol:

Rebecca Johnson  
Doug Jones  
Elaine Cabuts

MALD  
Cyngor Partneriaeth  
Ysgrifennydd, Amgueddfa Cymru

#### Adran 1

##### 1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd, Rhodri Glyn Thomas, bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

#### Ymddiheuriadau

Nodwyd ymddiheuriadau gan Liz Siberry, Dyfrig Jones a Phil Cooper.

Cyn dechrau ar yr agenda ffurfiol, nododd Rhodri ei bod yn amser ffarwelio gyda Roy Evans a Roy Roberts, gan mai dyma gyfarfod olaf y ddau ohonynt. Diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth clodwiw mewn cyfnod anodd, ac am eu harbenigedd a'u cyfraniad i gyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau.

Cyhoeddodd Rhodri fod seremoni wobrwyo ARA (Archives and Records Association) yn digwydd yn y Drwm am 2.30 y prynhawn hwnnw, gan nodi fod croeso mawr i'r Ymddiriedolwyr i fynychu. Diolchwyd i Gwyneth a'i thîm am eu gwaith gan Linda, ac ategwyd y diolchiadau hyn gan Rhodri

Croesawyd y datganiad am y gyllideb, gan nodi fod y cynnydd o 3.5% o refeniw yn deillio o drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Croesawyd hefyd y £7.5m ychwanegol i'r arian cyfalaf i gynnal a chadw'r adeilad. Serch hynny, mae'n parhau'n gyfnod heriol a'r wasgfa ariannol yn debygol o barhau.

Yn dilyn y cyhoeddiad, cytunwyd y byddai Rhodri yn anfon nodyn o ddiolch ar ran y Bwrdd i'r Gweinidog.

**GWEITHRED: Rhodri i anfon gair o ddiolch i'r Gweinidog yn dilyn y datganiad am y gyllideb**

## **1.2 Datgan Buddiannau**

Datganodd Huw Williams ei fod yn aelod o Geldards LLP ac ers 1 Medi 2015 mae Geldards wedi bod yn un o nifer o gwmnïau a benodwyd i Fframwaith Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru y mae'r Llyfrgell yn bwriadu ei ddefnyddio i fodloni ei gofynion o ran gwasanaethau cyfreithiol. Hefyd, mae Geldards yn parhau i gynghori'r Llyfrgell ar nifer o faterion parhaus dan gyfundeb gwasanaethau cyfreithiol blaenorol a ddyfarnwyd trwy dendr cystadleuol.

Datganodd Susan Davies ei bod yn parhau yn gysylltiedig â Phrifysgol Aberystwyth ar gyfer eitem 2.2 ar yr agenda.

Datganodd Iwan Davies ei fod yn ddarlithydd addysg uwch ym Mhrifysgol y Drindod, eto ar gyfer eitem 2.2 ar yr agenda.

## **1.3 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 30 Medi 2016**

Nodwyd fod angen y cywiriad canlynol;

O dan eitem 4.1, mae angen ychwanegu "o 2017" at y frawddeg yn sôn am dalu'r ardoll prentisiaid.

Mae angen y cywiriad canlynol yn y fersiwn Saesneg yn unig;

O dan eitem 4.2, "Pension Scheme Board" sy'n gywir, nid "Pension Scheme Committee".

## **1.4 Log Gweithredu**

Trafodwyd y log o weithrediadau yn deillio o gyfarfod 30 Medi, gan nodi fod y cyfan naill ai wedi eu cwblhau, neu yn cael eu trafod yn y cyfarfod ar 4 Tachwedd.

## Adran 2

### 2.1 Strategaeth y Llyfrgell 2017 – 2020

Diolchodd Linda am y sesiwn anffurfiol a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd yng Ngwesty Llety Parc, oedd yn gyfle i'r Aelodau roi sylwadau ac i drafod sut i ddatblygu dogfen ymgynghorol.

Amlinellwyd y broses ynghylch yr amserlen - mae 6 cyfarfod gyda staff wedi eu cynnal yn barod, ac mae bwriad i gael sylwadau cynulleidfa ehangach erbyn diwedd Tachwedd. Mi fydd yr ymgynghoriad hefyd yn cael ei amlygu ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mi fydd fideo yn cael ei gyhoeddi ar YouTube. Mi fydd y ddogfen ymgynghorol wedi ei chwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd.

Trafodwyd yr angen i ymgynghori yn eang ac edrych am gefnogaeth gan sefydliadau a grwpiau y medrwn eu hadnabod yn weddol hawdd. Cytunwyd hefyd i gynnal grwpiau ffocws mewn ardaloedd yng Nghymru, ac roedd yr Ymddiriedolwyr yn awyddus i gael gwybod pryd byddai'r rhain yn cael eu cynnal, fel bod modd iddynt fynychu fel sylwedyddion. Cytunwyd y byddai'r amserlen ar gyfer y grwpiau ffocws yn cael ei gosod ar wefan yr Ymddiriedolwyr

**GWEITHRED: CYTUNO AR DDYDDIADAU I GYNNAL GRWPIAU FFOCWS, A CAROL I OSOD YR AMSERLEN AR GYFER RHAIN AR WEFAN YR YMDDIRIEDOLWYR**

Yn dilyn y broses ymgynghori, bydd y cynllun fydd yn deillio o hynny yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror i'w gytuno a'i gymeradwyo, cyn ei anfon at y Gweinidog am ei gymeradwyaeth.

Diolchodd Rhodri hefyd i'r Aelodau am roi diwrnod o'u hamser i drafod y Strategaeth, gan ychwanegu fod trafodaethau buddiol wedi eu cynnal.

Diolchwyd hefyd i Linda a'i staff am gychwyn y broses ymgynghori gyda staff yn fewnol, gan ei bod yn bwysig cael cefnogaeth staff; yn dilyn y sesiynau mae nifer o staff wedi anfon sylwadau ar y ddogfen at Linda.

Penderfynwyd y dylid symud ymlaen gyda'r broses ymgynghori a chwblhau dogfen ymgynghorol erbyn diwedd mis Tachwedd.

### 2.2 Partneriaethau addysg uwch

Nododd Linda fod y papur sydd wedi ei baratoi yn canolbwyntio ar egwyddorion a nodi blaenoriaethau'r Llyfrgell o ran partneriaethau gyda sefydliadau addysg uwch. Nodwyd y bydd hyn yn golygu cydweithio gyda sawl sefydliad, ac nid ein clymu i un neu ddau.

Croesawodd yr Aelodau fframwaith ar gyfer partneriaethau ond nodwyd ei bod yn bwysig fod cyfraniad pawb yn cael ei gydnabod, a bod aliniad gyda Strategaeth y Llyfrgell.

Roedd yr Aelodau yn hapus i dderbyn y papur, ac mi fydd yn cael ei osod ar wefan yr Ymddiriedolwyr

GWEITHRED: CAROL I OSOD Y PAPUR ADDYSG UWCH AR WEFAN YR YMDDIRIEDOLWYR

### **2.3 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru**

Gan nad oedd sesiwn gaeedig yn cael ei chynnal heddiw, nid oedd modd trafod cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn parhau yn gyfrinachol. .

Diolchodd Linda i'r Pwyllgor Llywodraethant a Pherfformiad am eu mewnbwn ar 3 Tachwedd i'r ymateb fydd yn mynd ar ran y Bwrdd, ac mi fydd yr adroddiad yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau gydag unrhyw sylwadau cyn ei anfon i SAC ar 9 Tachwedd.

### **2.4 Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cynllunio Ariannol**

Roedd yr Aelodau yn hapus gyda'r Cylch Gorchwyl, ond nodwyd fod angen y newidiadau canlynol;

3.1 Angen nodi fod rhaid i'r Trysorydd fod yn un o'r Aelodau

3.2 Angen nodi mai'r Trysorydd ddylai gadeirio'r Pwyllgor

11.1 Angen cynnwys "Cefnogi'r Tîm Gweithredol a'r Trysorydd...."

Cytunwyd hefyd y dylai Rhan 11 gael ei gynnwys yn gynharach yn y ddogfen.

Trafodwyd ymhellach cysoni cylch gorchwyl y ddau bwyllgor sefydlog arall fel bod y cyfan yn gyson

GWEITHRED: CAROL I DDIWYGIO CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR CYNLLUNIO ARIANNOL A'I DOSBARTHU I'R AELODAU

GWEITHRED: CAROL I GYSONI CYLCH GORCHWYL Y TRI PHWYLLGOR SEFYDLOG

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd trosi'r Is Bwyllgor yma yn Bwyllgor sefydlog, a chadarnhawyd y cylch gorchwyl, yn dilyn cynnwys y newidiadau a nodwyd uchod. Cynigiwyd hyn gan Hugh Thomas, ac eiliwyd gan Huw Williams.

Aelodau'r Pwyllgor yw Colin John (Cadeirydd), Hugh Thomas, Huw Williams a Phil Cooper

### **2.5 Pwyllgor Archwilio a Risg – ethol Cadeirydd**

Diolchwyd i Roy Evans am gadeirio'r Pwyllgor yma am y tro olaf ar 21 Hydref. Gan fod cyfnod Roy fel Ymddiriedolwr yn dirwyn i ben ar ddiwedd mis Tachwedd, mae angen ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei le.

Cynigiodd Colin fod Huw Williams yn cael ei ethol yn Gadeirydd, ac eiliwyd hyn gan Hugh Thomas. Cytunodd Huw Williams i'r enwebiad.

Diolchwyd i Roy Evans ar ran y Pwyllgor Archwilio a Risg gan Colin John am ei waith clodwiw yn cadeirio'r Pwyllgor yma.

Nodwyd hefyd fod cyfnod Roy Roberts fel Ymddiriedolwr yn dod i ben ddiwedd mis Tachwedd ac mae ef yn cynrychioli'r Bwrdd ar y Bwrdd Cynllun Pensiwn. Awgrymodd Colin, fel Cadeirydd y Bwrdd Cynllun Pensiwn, y dylid ymestyn ei gyfnod fel Ymddiriedolwr ar y Bwrdd Cynllun Pensiwn gan fod parhad yn bwysig. Cytunodd yr Aelodau i hyn a chytunodd Roy i aros ymlaen am gyfnod, ond fel aelod annibynnol, gan na fydd bellach yn medru cynrychioli'r Bwrdd.

## **2.6 Swydd y Trysorydd**

Yn yr un modd, nodwyd fod cyfnod Colin fel Trysorydd yn dirwyn i ben ym mis Gorffennaf 2017, ac mae Colin yn gweithredu fel Cadeirydd y Bwrdd Cynllun Pensiwn. Gofynnwyd felly i Colin ystyried aros ymlaen hefyd fel Cadeirydd a chytunodd i wneud hynny.

Mi fydd yn rhaid i'r Bwrdd roi sylw i benodi olynydd i Colin, gan mai penodiad y Llyfrgell yw'r Trysorydd.

## **Adran 3**

### **3.1 Penodi Is Lywydd ac Ymddiriedolwyr**

Mi fydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal am swyddi'r Ymddiriedolwyr yn y Llyfrgell ar 15 Tachwedd, ac un yng Nghaerdydd ar 30 Tachwedd. Edrychir ymlaen at groesawu'r Ymddiriedolwyr newydd i'w cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror.

Mi fydd swydd yr Is Lywydd yn cael ei ail hysbysebu i geisio denu mwy o ymgeiswyr.

### **3.2 Materion yn ymwneud â'r adeilad**

Nododd Huw Williams ddiddordeb penodol yn yr eitem yma, gan fod cwmni Geldards wedi bod yn cynghori'r Llyfrgell ynghylch y tan.

Nododd David Michael mai un achos cyfreithiol oedd yn fyw erbyn hyn, a hynny yn erbyn yswirwyr y penseiri. Nid yw'r aelod staff sy'n delio gyda hyn yn Llywodraeth Cymru wedi medru rhoi sylw i hyn eto oherwydd amgylchiadau teuluol, felly mae'r Llyfrgell yn dal i aros i glywed y canlyniad.

### **3.3 Defnydd o sêl y Llyfrgell**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Ymddiriedolwyr ar y defnydd o'r sêl ers y cyfarfod diwethaf; mae hyn yn unol â phwynt 12.2 o Reoliadau 2006.

### **3.4 Corff Ymgynghorol**

Cyflwynodd Pedr bapur ar y Corff Ymgynghorol oedd yn deillio o drafodaethau yn y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad ar 17 Hydref. Mae'r papur yn nodi cryfderau a gwendidau'r Corff presennol, a gwahoddwyd yr Aelodau i gyflwyno sylwadau ar y papur i Pedr erbyn 30 Tachwedd, fel bod modd paratoi papur pellach i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad erbyn eu cyfarfod ar 27.01.17

Nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw fewnbwn gan y Corff yma erioed wedi cyrraedd y Bwrdd, ac mi roedd hyn yn un o'r diffygion. Awgrymwyd bod cyfle i geisio ffyrdd newydd o ymgysylltu tra bod y Llyfrgell yn mynd allan i ymgynghori ar y Strategaeth newydd, a chytunwyd fod hyn yn rhywbeth gwerth ei ystyried.

GWEITHRED: AELODAU I ANFON SYLWADAU AT PEDR AR Y CORFF YMGYNGHOROL ERBYN 30.11.16

GWEITHRED: PEDR I BARATOI PAPUR PELLACH I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT A PHERFFORMIAD ERBYN 27.01.17

### **Adran 4 Materion Ariannol**

#### **4.1 Adroddiad Cyllidebol**

Croesawyd Mererid Jones i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad ariannol.

Croesawyd y newyddion fod Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnydd o 3.5% mewn cyllid refeniw i'r Llyfrgell, a £7.5m o arian cyfalaf ychwanegol. Serch hynny, mae hyn yn parhau i adael y Llyfrgell mewn gwaeth sefyllfa o'i gymharu â 2015- 2016 yn dilyn toriad o 4.7%.

Mae'r Gweinidog wedi nodi fod rhaid gwario'r £7.5m o fewn blwyddyn, ac yn sicr bydd modd i'r Llyfrgell ymrwymo i wario'r arian o fewn blwyddyn.

Mae heriau o ran cynnal niferoedd staff yn parhau, ac mae colli staff trwy gytundebau yn dod i ben yn achosi pryder, ond yn anrffod yn yr hinsawdd bresennol.

Mi fydd adroddiad ariannol tan ddiwedd mis Medi yn cael ei osod ar wefan y Bwrdd, gydag ymddiheuriadau nad oedd wedi ei gyflwyno heddiw.

GWEITHRED: CAROL I OSOD ADRODDIAD ARIANNOL MIS MEDI AR WEFAN YR YMDDIRIEDOLWYR

#### **4.2 Gwerthusiad y Cynllun Pensiwn – diweddariad**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Colin, Cadeirydd y Bwrdd Cynllun Pensiwn.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun wedi ei gyllido 99%, ond mae diffyg o £400k i'w ddatrys.

Diolchwyd i Colin am gyflwyno'r adroddiad a nododd yr Aelodau eu bod yn hapus gyda'r perfformiad o 99%. Trafodwyd ymhellach prisiad teirblynedd y Cynllun Pensiwn, ac yn arbennig yr opsiynau o dan 3.3 ar gyfer ysgwyddo'r costau; mi fydd hyn yn cael ei drafod gyda'r Cyngor Partneriaeth yn eu cyfarfod nesaf. Mi fydd yn rhaid i'r Llyfrgell ystyried os yw'n medru caniatáu i staff newydd ymuno gyda'r cynllun presennol, gan y gall hynny niweidio buddion yr aelodau presennol. Ar yr un pryd, rhaid creu cynllun buddiol i aelodau newydd hefyd.

## **Adran 5 Adroddiadau o Bwyllgorau**

### **5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a gyfarfu ar 17.10.16**

Cyflwynwyd y cofnodion gan Susan Davies, Cadeirydd y Pwyllgor.

Nodwyd fod sylwadau ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu gwneud yn y cyfarfod ar 3 Tachwedd, ac wedi eu cofnodi ar wahân.

Mae'r gwaith ar y Rheoliadau a'r Fframwaith Llywodraethiant bron yn orffenedig, a diolchwyd i Huw am ei waith sylweddol yn cynorthwyo gyda hyn. Awgrymwyd na fyddai angen Cod Ymddygiad ar wahân bellach, gan fod hyn wedi ei gynnwys yn y Fframwaith - mi fydd y ddogfen yn cael ei hadnabod fel Fframwaith Llywodraethiant a Chod Ymddygiad.

Diolchodd Rhodri i'r Pwyllgor am eu gwaith. Nid oedd cwestiynau gan yr Aelodau.

### **5.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 21.10.16**

Cyflwynwyd y cofnodion gan Roy Evans, Cadeirydd y Pwyllgor.

Mae'r Aelodau yn parhau i aros i glywed gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag yswiriant indemniad, a chytunwyd fod angen bwrw ymlaen gyda hyn, a chael ateb gan Lywodraeth Cymru mor fuan â phosib, ac yn sicr cyn i'r Ymddiriedolwyr newydd ddechrau.

**GWEITHRED: LINDA I GEISIO CAEL YMATEB GAN LYWODRAETH CYMRU YNGLŷN AG YSWIRIANT INDEMNIAID**

Nodwyd fod yr archwilwyr mewnol, RSM wedi cael eu hail apwyntio, yn dilyn proses ar y cyd gyda'r Amgueddfa.

## **Adran 6 Busnes y Llywydd a'r Llyfrgellydd**

### **6.1 Busnes y Llywydd**

Diolchodd Rhodri i'r Aelodau am eu hymrwymiad i waith y Llyfrgell, gan nodi ei fod yn edrych ymlaen at gyfnod o sefydlogi yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb.

Mae'r Llyfrgell yn disgwyl clywed ar 15 Tachwedd os yw'r cais HLF/BBC wedi bod yn llwyddiannus.

### **6.2 Busnes y Llyfrgellydd**

Nododd Linda fod sgysiau yn cymryd lle gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ehangu Wikimedia Cymraeg.

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn cais i arddangos darnau o'r casgliadau celf yn Nhŷ Hywel yng Nghaerdydd, ac mae'r Llyfrgell yn hapus i roi ffacsimiles iddynt. Mae Elin Jones, Llywydd y Cynulliad eisoes wedi dewis lluniau i osod yn ei swyddfa.

I orffen, diolchodd Linda i'r Aelodau am gwblhau'r adolygiad 360; mae adroddiad wedi ei baratoi i'r Llywydd a bydd yn trafod hwn gyda Linda.

## **Adran 7 Unrhyw fater arall**

Gofynnwyd a oedd y Polisi Buddsoddi Arian Preifat wedi ei gyfieithu eto i'r Gymraeg - cafwyd cadarnhad ei fod, ac mi fydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ar 24.02.17.